Comisiynydd Yr Heddlu a Throseddu Gwent
Cyllideb 2021/2022

Annwyl breswylydd

Fy nghyfrifoldeb i yw pennu elfen plismona treth y cyngor. Mae hwn yn un o'r penderfyniadau pwysicaf rwy'n eu gwneud bob blwyddyn a rhaid i mi gydbwyso gofynion ariannol y Prif Gwnstabl ar gyfer plismona gweithredol gyda fforddiadwyedd i drethdalwyr lleol. Wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2021/22 rwyf wedi ystyried achos ariannol cadarn a gyflwynwyd gan Brif Gwnstabl Heddlu Gwent, ac argymhelliad gan Banel Heddlu a Throseddu Gwent i gadw costau i lawr i breswylwyr, ar yr amod nad yw hyn yn effeithio ar niferoedd swyddogion rheng flaen a staff. Cynhaliodd fy nhîm raglen helaeth o ymgysylltu â thrigolion ledled Gwent am naw wythnos hefyd i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl wedi cael cyfle i leisio eu barn. Nododd dros 55 y cant o'r bobl a ymatebodd eu bod yn fodlon cefnogi codiad yn nhreth y cyngor o hyd at £2 y mis. Gan ystyried yr holl ffactorau hyn rwyf wedi penderfynu cynyddu'r praesept 5.49 y cant a fydd yn golygu y bydd cartref cyffredin yng Ngwent (eiddo band D) yn talu £1.25 ychwanegol y mis am ei wasanaeth plismona. Rwy'n falch fy mod wedi gallu cadw'r ffigwr dan £2 a chaniatáu i Heddlu Gwent barhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol ar yr un pryd - gwasanaeth sy'n cadw Gwent yn un o'r llefydd mwyaf diogel yn y DU. Bydd yn galluogi Heddlu Gwent i recriwtio 18 o swyddogion cymorth cymunedol newydd dros y ddwy flynedd nesaf hefyd ac mae hynny i'w groesawu. Mae'r rhain yn ychwanegol at y buddsoddiad sylweddol rydym wedi ei wneud mewn rhyw 170 o swyddogion heddlu newydd ers 2016, a gafodd ei ariannu trwy gynyddu praesept treth y cyngor hefyd. Bydd y rhain yn ychwanegol at y 165 o swyddogion newydd a fydd yn ymuno â Heddlu Gwent yn rhan o raglen Uplift llywodraeth y DU. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn ac i'r Panel Heddlu a Throseddu am ei waith craffu a'i gefnogaeth barhaus.

Jeff Cuthbert
Comisiynydd Yr Heddlu a Throseddu Gwent
01633 642200
www.gwent.pcc.police.uk

Cost Plismona a Throsedd yng Ngwent

	2020/21 £'000	2021/22 £'000
Cyllideb Refeniw Gros	155,661	163,633
Llai Incwm	(7,310)	(6,790)
Llai Grant Y Swyddfa (Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder)	(3,817)	(4,182)
Llai Grantiau (Llywodraeth Cymru)	(5,543)	(5,106)
Gwariant Refeniw Newydd	138,991	147,555

Sut y telir amdano

Grant Cyffredinol Yr Hedd	46,660	51,539
Grant Cymorth Refeniw	22,132	21,591
Ardrethi Annomestig Cenedlaethol	9,658	10,266
Praesept	60,541	64,159
Cyfanswm Refeniw	138,991	147,555

Cyllideb Cyfalaf

	2020/21 £'000	2021/22 £'000
Cyllideb Cyfalaf	22,507	18,655

Gelwir mynd i wariant o ganlyniad i ddarparu adeiladau ac asedau eraill yn wariant cyfalaf

Sut y telir amdano

Grand Cyfalaf	120	120
Cyfraniad Refeniw tuag at Gyfalaf	10,013	7,725
Cyfraniadau o'r cronfeydd wrth gefn	12,173	10,809
Gwaredu ased cyfalaf	201	0
Cyfanswm Cyfalaf	22,507	18,655

Beth fyddwch chi'n ei dalu

Band Treth Eiddo

Band Treth	Cost
A	£191.97
B	£223.97
C	£255.96
D	£287.96
E	£351.95
F	£415.94
G	£479.93
H	£575.92
I	£671.91

I gael rhagor o wybodaeth am eich bil treth gyngor llawn, cysylltwch â chyngor Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen neu Gasnewydd.